



Cyflwyno senarios ar gyfer Ystorfa Efelychu AaGIC: Y broses

Fersiwn	1
Awdur	Tîm efelychu AaGIC
Dyddiad cymeradwyo	
Dyddiad adolygu	

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflwyno senario efelychu i'w chynnal yn ystorfa Senario Efelychu Iechyd a Gofal Cymru Gyfan AaGIC.

Nodau:

- Darparu ystorfa gyda sicrwydd ansawdd o senarios efelychu i'w defnyddio gan y gweithlu iechyd a gofal ledled Cymru.
- Gwellu hygyrchedd adnoddau efelychu i bawb trwy rannu senarios, osgoi dyblygu gwaith a hyrwyddo cydweithio.

Mae Tîm Efelychu AaGIC wedi cyflwyno templed senario sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gyda sicrwydd ansawdd. Disgwylir i bob senario a gynhwysir yn yr ystorfa ddefnyddio'r templed hwn. Gellir gweld a lawrlwytho'r templed [yma](#).

Y Broses:

Isod mae meini prawf hanfodol a dymunol y dylai unrhyw senario eu bodloni i gael eu cynnwys yn yr ystorfa. Mae Atodiad A yn amlinellu safonau perthnasedd ASPIH wrth gefnogi'r meini prawf hyn.

Disgwylir y bydd o leiaf yr holl feini prawf hanfodol yn cael eu bodloni. Bydd unrhyw senario a gyflwynir yn cael ei adolygu gan y Tîm Efelychu yn erbyn y meini prawf hyn. Bydd tri chanlyniad posibl: derbyn, gwrthod neu argymhellion ar gyfer golygu pellach.

Rhestr wirio ar gyfer cyflwyniadau

1. Nodir teitl y senario ac enw'r awdur (E)
2. Pwrpas ac aliniad clir â chanlyniadau cwricwlwm neu raglen (H)
3. Nodir dysgwyr/cynulleidfa darged (H)
4. Disgrifir amcanion/canlyniadau dysgu gan ddefnyddio berfau SMART a gweithredol yn cael eu defnyddio yn unol â thacsonomeg Bloom (E)
5. Ar gyfer senario rhyngbroffesiynol, nodir canlyniadau tîm a phroffesiwn penodol (H)



6. Nodir gweithgareddau a deunyddiau dysgu cyn y senario (D)
7. Mae dyraniad amser y senario wedi'i bennu ac mae'n ddigonol i fodloni'r canlyniadau/amcanion dysgu (D)
8. Mae'r ffyddlondeb swyddogaethol a'r moddolrwydd a ddewiswyd yn cyd-fynd â'r canlyniadau/amcanion dysgu (D)
9. Nodir gofynion y gyfadran a chymorth technegol (D)
10. Offer a phropiau sy'n berthnasol i gwrdd â'r amcanion/canlyniadau dysgu yn cael eu hadnabod (E)
11. Darperir cyfarwyddiadau/canllawiau i hwyluswyr ac maent yn glir (D)
12. Mae briff y senario a rôl y dysgwr yn briodol i fodloni'r canlyniadau/amcanion dysgu gan gadw'r proffesiwn a lefel profiad mewn cof (H)
13. Mae camau'r senario wedi'u halinio â chanlyniadau/amcanion dysgu (H)
14. Disgrifir strategaethau ymadael clir (E)
15. Disgrifir dull/cynllun ôl-friffio ac yn unol â chanlyniadau/amcanion dysgu (D)



Atodiad A:

Safonau ASPiH sy'n berthnasol i Ddylunio

- Senario Dylid defnyddio asesiad o anghenion pob dysgwr i ddatblygu'r amcanion dysgu. Dyma'r ffordd orau o sicrhau ymdriniaeth ddibynadwy a dyls o ganlyniadau'r cwricwlwm, nodau'r sefydliadau ac angen clinigol.
- Dylai amcanion dysgu fod yn briodol i lefel y dysgwr ac, ar yr un pryd, wedi'u cynllunio i fod yn heriol ond yn gyraeddadwy. Bydd angen cysylltu amcanion lle bo'n berthnasol â sgiliau technegol neu weithdrefnol unigol, gweithio mewn tîm, sgiliau annhechnegol ac â nodau a gofynion sefydliadol.
 - Dylid disgrifio'r meysydd dysgu (gwybyddol/affeithiol/seicoomotor) sy'n rhan o'r gweithgaredd gan ddefnyddio theori addysgol ([tacsonomeg Bloom](#))
 - Dylid ystyried ymgorffori'r ymagwedd ffactorau dynol.
 - Sicrhau bod briff cyn-efelychu yn digwydd lle caiff amcanion dysgu eu gosod ymlaen llaw a'u trafod fel rhan o'r broses ôl-drafod sy'n digwydd ar ôl cwblhau senario efelychiadol, neu mewn adborth ar gwblhau sgil ymarferol.
 - Dylai'r briff cyn-efelychu gynnwys elfennau megis disgwyliadau o ran proffesiynoldeb, moesau, cyfrinachedd a rolau, ynghyd â chyflwyniad i'r amgylchedd efelychiedig.
 - Dylid dewis ffyddlondeb yr efelychiad ar sail amcanion y sesiwn a addysgir.
 - Dylid esbonio gwiriadau oddi wrth ymarfer clinigol o gymharu â phrofiad yr efelychydd i'r dysgwyr mewn sesiwn frifio cyn sesiwn.
 - Dylai'r dewis o sgiliau i'w gwerthuso yn ystod asesiad ffurfiannol gael ei arwain gan wybodaeth gwricwlaidd, canllawiau cymhwysedd a chyfyngiadau'r dulliau efelychu a ddewiswyd.
 - Dylid asesu setiau sgiliau penodol megis gwaith tîm, arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau clinigol a chyfathrebu gan ddefnyddio senarios efelychu yn seiliedig ar dimau amlddisgyblaethol neu senarios efelychu annibynnol gan ddefnyddio cleifion efelychiedig. Gellir asesu rhai sgiliau gan ddefnyddio efelychiad hybrid neu ddeufoddol a all gynnwys efelychiad cleifion.
 - Dylid ystyried diogelwch seicolegol y dysgwr. Gallant brofi mwy o bryder ynghylch y posibilrwydd o wneud camgymeriadau, a allai arwain at ganlyniadau negyddol.
 - Dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu hyfforddiant mewn amgylchedd sy'n debyg iawn i'r maes clinigol arfaethedig.
 - Mae angen neilltuo digon o amser ar gyfer dadfrifio yn syth ar ôl yr efelychiad yn y lleoliad clinigol i gael y budd mwyaf.
 - Dylid defnyddio dull amlddisgyblaethol o werthuso rhyngweithiadau tîm, gan ganolbwyntio ar ffactorau dynol ymagwedd i werthuso effaith gwallau cudd ac i nodi camau adferol i oresgyn gwallau o'r fath.